Archwilio Cymru
Audit Wales

# Trawsnewid Digidol

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ebrill 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 9 |
| Argymhellion | 25 |
| Atodiadau | 27 |
| 1 Ymateb y Rheolwyr | 28 |
| 2 Ynglŷn â'n gwaith | 37 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) o gymorth i wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys ei dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau digidol. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y mae'r sefydliad yn rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a Deallusrwydd Artiffisial (AI). Roedd ein gwaith yn gyfyngedig i'r Ymddiriedolaeth yn unig; ni wnaethom ystyried y dull a ddefnyddir gan gyrff a letyir gan yr Ymddiriedolaeth.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

4 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig. Mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae’r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod trawsnewid digidol yn ganolog i foderneiddio ei gwasanaethau. Er bod ganddi Strategaeth Ddigidol 10 mlynedd a threfniadau llywodraethu ategol, nid yw’r strategaeth yn cynnwys cynllun cyflawni manwl, wedi’i gostio. Mae hyn yn ei gwneud hi’n anos i’r Ymddiriedolaeth flaenoriaethu gwaith, defnyddio adnoddau’n effeithiol, a bod yn hyderus y gall ei nodau digidol gael eu cyrraedd â’r capasiti sydd ganddi.

6 Mae buddsoddiad digidol wedi cynyddu yn bennaf am bod costau refeniw’n codi. Fodd bynnag, mae cyllid cyfalaf yn anrhagweladwy a disgwylir iddo ostwng yn sylweddol yn 2026-27. Mae hyn yn creu risgiau ar gyfer amnewid hen systemau, a all achosi oedi wrth gyflawni’r Strategaeth Ddigidol.

7 Mae disgwyl i systemau cenedlaethol helpu’r Ymddiriedolaeth i wella diogelwch ac effeithlonrwydd, tra bo prosiectau lleol, megis y Platfform Hyfforddiant Digidol, gwaith dylunio sy’n canolbwyntio ar ddefnyddwyr, a defnydd cynnar o AI, wedi’u bwriadu i helpu staff i weithio’n fwy effeithlon ac ategu ffyrdd mwy modern o weithio.

8 Serch hynny, mae cynnydd yn cael ei ddal yn ôl gan nifer o fylchau yn nhrefniadau’r Ymddiriedolaeth. Nid yw risgiau allweddol sy’n gysylltiedig â seiberddiogelwch, hen systemau ac AI wastad yn cael eu cofnodi mewn ffordd gyson, sy’n cyfyngu ar allu’r Bwrdd i’w goruchwylio’n effeithiol. Hefyd, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth glir am sgiliau digidol ar draws ei gweithlu eto. Hefyd, cyfyngedig yw gwaith i werthuso prosiectau digidol, sy’n ei gwneud hi’n anos dangos a yw manteision disgwyliedig yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi cyflwyno chwe argymhelliad i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre sy’n canolbwyntio ar y canlynol:

- gwella sut y mae’n goruchwylio ac yn tracio risgiau yn y seilwaith digidol;
- cynyddu mynychder adroddiadau seiber, gweithgarwch i graffu arnynt a’u cyfanrwydd;
- cryfhau prosesau’r Ymddiriedolaeth ar gyfer rheoli risgiau sy’n gysylltiedig ag AI;

- gwella dull yr Ymddiriedolaeth o ddeall a datblygu sgiliau digidol y gweithlu;
- cryfhau gwaith cynllunio ariannol i nodi’n glir beth yw’r anghenion buddsoddi digidol yn y tymor byr, canolig a hir; a hefyd
- gwella’r modd y gwerthusir datrysiadau digidol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O weithlu'r Ymddiriedolaeth (oddeutu 1,200 o gyflogeion), dim ond 33 sydd wedi cwblhau offeryn hunanwerthuso rhyngweithiol AaGIC fel rhan o'r Fframwaith Gallu Digidol.

Ers mis Ebrill 2024, dim ond dau ddigwyddiad seiber y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u cael; fodd bynnag, nid yw wedi cael unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy fel a nodir yn Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018.

Canfu asesiad ym mis Mawrth 2023 fod yr Ymddiriedolaeth ar Gam 1 model EMRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), sy'n golygu bod systemau digidol craidd yn eu lle. Mae mentrau strategol, gan gynnwys rhoi presgripsiynu electronig ar waith, yn mynd rhagddynt er mwyn symud y tu hwnt i'r lefel hon.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ennill achrediad dan y Siarter Cynhwysiant Digidol i gydnabod ei Chynllun Cynhwysiant Digidol.

Rhwng 2021-22 a 2024-25, buddsoddodd yr Ymddiriedolaeth oddeutu £19.4 miliwn mewn refeniw Digidol, Data a Mewnwelediadau a £12.2 miliwn mewn cyfalaf.

Rhwng 2025-26 a 2028-29, mae’r Ymddiriedolaeth wedi rhagweld cyfanswm gwariant o oddeutu £33 miliwn ar refeniw Digidol, Data a Mewnwelediadau a £6.4 miliwn ar gyfalaf.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, Cynllunio ac Arweinyddiaeth

**Mae gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth ddigidol eglur, ond mae angen aliniad gwell â chynlluniau sefydliadol a phroffil cryfach yn y Bwrdd i ategu trawsnewid digidol yn llawn**

### Strategaeth a chynlluniau digidol

10 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Strategaeth Ddigidol 10 mlynedd eglur, a gymeradwywyd gan ei Bwrdd yn 2023. Mae'r strategaeth ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar chwe phrif thema, ac mae gan bob thema nodau a chamau gweithredu eglur sy'n cwmpasu pob rhan o drawsnewid digidol.[1] Mae'r strwythur eglur hwn yn darparu sylfaen gref ar gyfer cynlluniau digidol yr Ymddiriedolaeth ac yn dangos ei bod yn deall cyfleoedd a heriau digidol.

11 Mae'r Strategaeth Ddigidol yn gysylltiedig â strategaeth hirdymor yr Ymddiriedolaeth, Cyrchfan 2033. Fodd bynnag, gallai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y strategaeth yn cyd-fynd yn well â strategaethau sefydliadol eraill, megis y Strategaeth Pobl a'r Strategaeth Glinigol, i gynyddu ei heffaith i'r eithaf. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau trawsnewid digidol cenedlaethol, gan gynnwys uchelgeisiau "Unwaith i Gymru" Llywodraeth Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i fabwysiadu nifer o systemau cenedlaethol i ategu'r nodau hyn, gan ddangos aliniad cryf â nodau ehangach y sector.

---

[1] Y chwe thema yw: Sicrhau Ein Sylfeini, Cynhwysiant Digidol, Gwasanaethau Seiliedig ar Fewnwelediadau, Systemau Saff a Diogel, Sefydliad Digidol, a Gweithio mewn Partneriaeth.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi cynllun tymor byr a chanolig realistig y gellir ei gyflawni ar gyfer trawsnewid digidol yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2023-26. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar foderneiddio systemau craidd, symud gwasanaethau i blatfformau yn y cwmwl, a gwella seiberddiogelwch i leihau risg weithrediadol. Fodd bynnag, nid yw cynllun yr Ymddiriedolaeth y tu hwnt i 2026 wedi'i ddiffinio a'i gostio'n glir.

13 Mae'r Strategaeth Ddigidol yn seiliedig ar ddarlun realistig o aeddfedrwydd digidol cyfredol yr Ymddiriedolaeth, a ategir gan asesiad gan y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), a arweiniodd at farnu bod yr Ymddiriedolaeth ar Gam 1.[2] Fe'i datblygwyd hefyd gyda mewnbwn gan staff a defnyddwyr gwasanaethau trwy weithdai a grwpiau ffocws a gefnogwyd gan Llais.[3] Er bod aelodau'r Bwrdd wedi adolygu fersiynau drafft o'r strategaeth cyn ei chymeradwyo'n ffurfiol, byddai eu cynnwys yn gynharwch yn y broses ddatblygu wedi galluogi mewnbwn ac ymgysylltiad mwy ystyrlon gan y Bwrdd.

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

14 Mae'r Bwrdd yn dangos dealltwriaeth resymol am y Strategaeth Ddigidol a chefnogaeth resymol iddi. I gryfhau ymwybyddiaeth o risgiau digidol, darparwyd sesiynau Datblygu'r Bwrdd ar lywodraethu gwybodaeth a seiberddiogelwch ym mis Ebrill 2025. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen mwy o addysg a chodi mwy o ymwybyddiaeth am ddigidol i helpu aelodau'r Bwrdd i gyflawni swyddogaeth gryfach o ran herio, craffu a darparu arweinyddiaeth strategol wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau â'i thaith trawsnewid digidol.

---

[2] Mae Cam 1 Model Mabwysiadu Cofnodion Meddygol Electronig (EMRAM) y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS) yn dynodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi gosod systemau ategol craidd ar gyfer labordai, fferylliaeth a radioleg.

[3] Llais yw'r corff llais dinasyddion cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

15 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth Aelod Annibynnol na Hyrwyddwr ar lefel y Bwrdd ar gyfer Digidol, sydd o bosibl yn lleihau proffil materion digidol ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol a'r Prif Swyddog Digidol yn mynychu cyfarfodydd perthnasol y Bwrdd a phwyllgorau yn ôl y gofyn. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cael ei chynrychioli ar Rwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru Gyfan mwyach, rôl a gyflawnwyd gan yr Is-Gadeirydd blaenorol. Mae hyn yn lleihau cyfleoedd i rannu gwersi, cyfnewid arfer da, a chyfrannu at drafodaethau digidol cenedlaethol a allai ategu trawsnewid digidol yr Ymddiriedolaeth ei hun.

## Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

16 Ceir atebolrwydd eglur o fewn yr Ymddiriedolaeth am gyflawni trawsnewid digidol, a ategir gan uwch rolau sydd wedi'u diffinio'n dda. Mae cyfrifoldeb gweithredol yn eistedd gyda'r Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol. Mae cyflawni gweithrediadol yn cael ei oruchwylio gan y Prif Swyddog Digidol, sy'n gyfrifol am dair swyddogaeth graidd: Cyflawni Digidol, Rhaglenni Digidol, a Data a Mewnwelediadau.

17 Adroddir yn rheolaidd ar gynnydd gyda'r Strategaeth Ddigidol wrth y Bwrdd Rheoli Gweithredol (EMB), y Pwyllgor Datblygu Strategol (SDC), a'r Bwrdd. Mae diweddariadau'n cael eu rhannu bob deufis gyda'r Pwyllgor Datblygu Strategol trwy adroddiadau ar y prif bwyntiau. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi darlun clir o gynnydd, risgiau, a dibyniaethau allweddol. Mae perfformiad gwasanaethau digidol yr Ymddiriedolaeth ar faterion gweithrediadol megis diogelwch, profiad, amseroldeb ac effeithlonrwydd yn cael ei fonitro ar wahân, gyda goruchwyliaeth briodol yn cael ei darparu gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad (QSPC).

18 Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei strwythur pwyllgorau. Er na wnaethom adnabod pryderon gyda'r modd y gwahenir goruchwyliaeth ar hyn o bryd, gall y trefniadau diwygiedig gynnig cyfleoedd i gyfuno goruchwyliaeth ddigidol mewn un pwyllgor, gan wella proffil digidol o bosibl ar lefel y Bwrdd.

19 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Fwrdd Rhaglenni Digidol (DPB) hefyd sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol. Cyflwynir adroddiadau ar brif bwyntiau prosiectau sy'n rhan o raglenni digidol i'r Bwrdd Rhaglenni Digidol ar gyfer sicrwydd, gan roi darlun eglur o gynnydd a risgiau. Fodd bynnag, ceir cyfle i gryfhau sut y mae manteision busnes arfaethedig yn cael eu tracio a sut yr adroddir arnynt i alluogi'r Ymddiriedolaeth i werthuso llwyddiant prosiectau'n fwy effeithiol.

# Adnabod a rheoli risgiau

## Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymwybyddiaeth dda o'i risgiau digidol, ond mae gofyn cryfhau sut y mae'n eu rheoli

### Risgiau yn y seilwaith digidol

18 Er bod y Strategaeth Ddigidol yn cydnabod yr angen i ddiweddaru technoleg yn gyson, nid yw'n nodi llinellau amser a cherrig milltir eglur, na chynlluniau wedi'u costio, ar gyfer gwneud hynny. Gallai hyn fod yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb y strategaeth fel offeryn ar gyfer blaenoriaethu a goruchwylio. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio rhestr gyfoes o wasanaethau ac offer digidol, a ategir gan offeryn gwirio asedau wedi'i awtomeiddio, i reoli cylchoedd oes seilwaith ac adnabod elfennau sydd wedi mynd o arfer.

19 Er bod risgiau yn y seilwaith digidol wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Ymddiriedolaeth ac yn cael eu hadolygu gan y Bwrdd, mae gofyn cael mwy o sicrwydd ynghylch sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli ac yn lliniaru'r risgiau. Er enghraifft, mae Cofrestr Risgiau'r Ymddiriedolaeth yn amlygu materion a achosir gan hen systemau y mae angen eu datrys â llaw, megis gwallau yng nghanlyniadau profion. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi sefydlu rheolaethau a'i bod yn monitro cynnydd, mae rhai camau gweithredu'n dal i fod heb derfynau amser eglur, gwybodaeth am gostau, a deilliannau mesuradwy.

20 Eir ar drywydd gofynion mawr o ran seilwaith trwy achosion busnes ffurfiol sydd wedi'u strwythuro'n dda fel rheol. Er bod yr enghreifftiau a adolygwyd gennym ni'n seiliedig ar nifer o dybiaethau, megis risgiau o ran capasiti ac ansicrwydd ariannol, roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd yn sicrhau eu bod yn cael eu profi ac y creffir arnynt cyn eu bod yn cyrraedd y Bwrdd i gael eu cymeradwyo.

## Seibergadernid

21 Mae seiberddiogelwch yn un o elfennau craidd Strategaeth Ddigidol yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys ymrwymiad gan y sefydliad i ddiogelu data, cryfhau seibergadernid, a chyrraedd safonau cenedlaethol. Ategir y strategaeth gan Gynllun Cyflawni Strategol Seiberddiogelwch sy'n cyd-fynd â'r "10 Cam i Seiberddiogelwch" gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, gyda chamau gweithredu wedi'u hamserlennu hyd at 2027 ar gyfer llywodraethu, cadernid, monitro systemau ac ymwybyddiaeth.

22 Fodd bynnag, fe wnaeth adolygiad yr Uned Seibergadernid ym mis Gorffennaf 2025 amlygu bylchau allweddol, gan gynnwys diffyg Cynllun Ymateb i Ddigwyddiadau a defnydd anghyson o wiriadau seiber yn ystod ymarferion caffael. Er mai dim ond dau ddigwyddiad seiber y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'u profi ers mis Ebrill 2024, nad oedd y naill na'r llall ohonynt yn rhai yr oedd yn ofynnol hysbysu'r Uned Seibergadernid amdanynt dan Reoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018, mae'r ffaith mai dim ond yn flynyddol y mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn cael adroddiad am ddigwyddiadau a rhybuddion seiber yn cyfyngu ar oruchwyliaeth amserol a'r gallu i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg.[4] Mae risgiau i seiberddiogelwch yn ymddangos yng Nghofrestr Risgiau'r Ymddiriedolaeth ac yn Fframwaith Sicrwydd ei Bwrdd. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, mae'r sgoriau a roddwyd i risgiau wedi mynd y tu hwnt i'r trothwy ar gyfer adrodd yn benodol ar lefel Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. Fe wnaeth adolygiad Archwilio Mewnol o seiberddiogelwch a gwblhawyd yn 2025 ddarparu 'Sicrwydd Rhesymol'. Fodd bynnag, nododd wendidau yn y ffordd y caiff risgiau seiber eu rheoli gan yr Ymddiriedolaeth.

---

[4] Nod Rheoliadau Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth 2018 yw gwella seiberddiogelwch a seibergadernid systemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol.

23 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn cael diweddariadau rheolaidd ar berfformiad seiberddiogelwch, gan gynnwys canlyniadau hyfforddiant, canlyniadau profion gwe-rwydo, a chynnydd yn erbyn Fframwaith Asesu Seiber (CAF) Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth (NIS). Ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflwyno ei sefyllfa dan y Fframwaith Asesu Seiber fel un ganran gydymffurfio. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Asesu Seiber wedi'i fwriadu i gefnogi trafodaeth strwythuredig am risgiau seiber ac aeddfedrwydd sefydliadol yn hytrach na chynhyrchu un sgôr cydymffurfio syml. Er ei fod yn beth cadarnhaol bod yr Ymddiriedolaeth yn adrodd yn dryloyw ar ei sefyllfa gyfredol, byddai sicrwydd yn cael ei gryfhau trwy ddangos faint o egwyddorion a chanlyniadau cyfrannol dan y Fframwaith Asesu Seiber sydd wedi cyrraedd y lefel aeddfedrwydd ofynnol, gyda hynny'n cael ei ategu gan eglurhad ar ffurf naratif o fylchau sy'n dal i fodoli a chamau gweithredu arfaethedig.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal perthnasoedd allanol pwysig â'r Uned Seibergadernid, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru, gan dynnu'n briodol ar eu canllawiau, safonau ac arbenigedd. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithio gyda'r partneriaid hyn i ymdrin â gwendidau a adnabuwyd yn adolygiad yr Uned Seibergadernid a chryfhau'r modd y cyflawnir ei Chynllun Cyflawni Strategol Seiberddiogelwch. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth hon yn amlygu'r angen am ragor o fuddsoddiad mewn cynyddu capasiti a gallu seiberddiogelwch mewnol yr Ymddiriedolaeth.

## Deallusrwydd artiffisial

27 Mae'r Ymddiriedolaeth yn dechrau datblygu gweledigaeth eglur ar gyfer sut y mae arni eisiau defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) fel rhan o'i thrawsnewid digidol ehangach. O ganlyniad, mae bellach yn adolygu ei Strategaeth Ddigidol i wneud ei huchelgeisiau AI yn fwy eglur ac yn fwy penodol.

28 Mae hefyd yn datblygu strategaeth AI ar wahân ac yn cydnabod y bydd ei llwyddiant yn dibynnu ar sylfeini cryfion. Mae'r rhain yn cynnwys bod â model gweithrediadol clinigol eglur, systemau a phrosesau dibynadwy, data o ansawdd da, ac achosion defnydd wedi'u diffinio'n dda. Fodd bynnag, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth lawn eto am y lefel o adnoddau y mae ei hangen i gyflawni ei chynlluniau AI na sut y bydd yn tracio ac yn mesur ei heffaith.

29 Er bod AI wedi'i chynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, nid yw'r rheolaethau'n cyfateb yn eglur i'r risgiau AI-benodol. Ar ben hynny, nid yw'r Bwrdd yn teimlo ei fod yn cael digon o sicrwydd ynghylch sut y caiff y risgiau hyn eu hadnabod, eu rheoli, na'u lleihau. Er bod polisïau a gweithdrefnau presennol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelu data'n darparu peth sicrwydd, nid ydynt yn ymdrin yn llawn â'r risgiau moesegol, cyfreithiol ac ariannol a ddaw yn sgîl technolegau AI.

# Sgiliau digidol

## Er bod yr Ymddiriedolaeth wrthi'n rhagweithiol yn datblygu sgiliau digidol ar draws y gweithlu, mae arni angen dull mwy cydgysylltiedig i adnabod llinell sylfaen eglur o ran anghenion

### Asesu sgiliau digidol

30 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth lawn eto am sgiliau digidol ar draws ei gweithlu. Mae'r Strategaeth Ddigidol yn crybwyll defnyddio archwiliadau achrededig i fesur hyder digidol, ond ar hyn o bryd nid oes cynllun na dull eglur ar gyfer gwneud hyn. Yn lle hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dechrau defnyddio Fframwaith Gallu Digidol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Fodd bynnag, dim ond 33 o oddeutu 1,200 o aelodau o staff sydd wedi cwblhau'r hunanwerthusiad hyd yma. Mae'r offeryn yn ceisio asesu sgiliau a hyder TG ac nid yw'n asesu'r sgiliau ehangach y gall fod eu hangen i ategu trawsnewid digidol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi wneud mwy i hybu defnydd o fframwaith AaGIC yn ogystal ag asesu'r sgiliau ehangach sy'n ofynnol ar gyfer trawsnewid digidol. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant digidol ar gyfer pob un o'i rhaglenni ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau fel rhan o'r meini prawf ar gyfer mynd yn fyw.

## Datblygu sgiliau digidol

31 Mae’r Ymddiriedolaeth yn ymrwymedig i ddatblygu gweithlu â sgiliau digidol. Mae’r Strategaeth Ddigidol a’r Strategaeth Pobl yn amcanu at sicrhau bod staff yn hyderus wrth ddefnyddio offer digidol. Mae’r ddwy strategaeth yn cyd-fynd â rhaglenni cenedlaethol ac yn cynnwys camau gweithredu tymor byr, canolig a hir i wella sgiliau digidol. Mae’r rhain yn cynnwys gweithio gydag AaGIC a’r Academi Dysgu Dwys a chynnwys sgiliau digidol mewn rhaglenni trawsnewid. Fodd bynnag, nid yw’n glir ai’r Tîm Digidol ynteu’r Tîm Datblygu Sefydliadol a Datblygu’r Gweithlu sy’n gyfrifol am ddatblygu sgiliau digidol. Gallai’r diffyg eglurder hwn rwystro cynnydd, arwain at waith a ddyblygir neu sy’n anghyd-drefnus, a’i gwneud hi’n anos i’r Ymddiriedolaeth feithrin y sgiliau y mae eu hangen i ategu ei huchelgeisiau trawsnewid digidol.

32 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cymryd rhai camau i ategu sgiliau digidol ar draws ei gweithlu. Mae wedi lansio Platfform Hyfforddiant Digidol sy’n rhoi mynediad i staff at hyfforddiant ar systemau allweddol. Mae adnoddau eraill yn cynnwys cyrsiau ar-lein, e-ddysgu a gweithdai rhithwir. Mae rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddiant wedi’u teilwra hefyd yn helpu staff i feithrin y sgiliau digidol y mae eu hangen ar gyfer eu rolau.

33 Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd wedi buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol ar gyfer y tîm digidol canolog, gan gynnwys cymorth ar gyfer cymwysterau uwch, sy’n dangos ymrwymiad i gadw a datblygu talent arbenigol. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth Dîm Digidol sydd wedi hen ennill ei blwyf, mae’n parhau i adnabod bod recriwtio a chadw staff medrus yn risg arwyddocaol.

# Cydweithio a chynnwys

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad cryf a rhagweithiol i drawsnewid digidol cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr

### Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

34 Mae dull yr Ymddiriedolaeth o gynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio systemau digidol yn gadarnhaol ond nid yw'n cynnwys y strwythur y mae ei angen i sicrhau cysondeb ac effaith. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio a datblygu systemau digidol, gyda Dadansoddwyr Busnes yn cydweithio'n agos gyda thimau rheng flaen i wneud yn siŵr bod datrysiadau newydd yn diwallu anghenion gweithrediadol. Mae'r dull hwn yn cael ei gryfhau gan arweinyddiaeth frwd gan y Prif Swyddog Gwybodaeth Glinigol a'r Prif Swyddog Gwybodaeth Nyrsio, sy'n helpu i sicrhau bod barn glinigol a barn defnyddwyr yn siapio trawsnewid digidol.

35 Mae cynnwys defnyddwyr wedi helpu i wella gwasanaethau digidol a goleuo prosesau penderfynu. Mae mentrau megis yr Awdurdod Dylunio Digidol, hyfforddiant ar ddylunio gwasanaethau mewn modd sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr a'r Cynllun Cynhwysiant Digidol yn dangos ffocws cryf ar ddeall yr hyn y mae ar ddefnyddwyr ei angen. Mae staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau hefyd wedi helpu i siapio prosiectau megis y rhwydwaith Arwyr Digidol, y Platfform Hyfforddiant Digidol a gwelliannau i'r Ddesg Wasanaeth Ddigidol. Rhoddodd rhanddeiliaid adborth da ar yr achos busnes Presgripsiynu a Rhoi Meddyginiaethau'n Electronig (ePMA) hefyd am eu bod wedi cael eu cynnwys tra'r oedd yn cael ei ddatblygu.

36 Fodd bynnag, er bod rhai prosiectau'n defnyddio dulliau ystwyth a safonau dylunio gwasanaethau cydnabyddedig, mae diffyg dull ffurfiol o gynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau wrth ddylunio systemau digidol yn creu risg o ymgysylltu anghyson, tameidiog a gydgysylltir yn wael ar draws rhaglenni.

## Lleihau allgau digidol

37 Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i leihau allgau digidol trwy benodi arweinydd pwrpasol a chymeradwyo Cynllun Cynhwysiant Digidol manwl ar gyfer 2024-25. Mae’n seiliedig ar dystiolaeth, wedi’i achredu dan y Siarter Cynhwysiant Digidol, ac yn defnyddio gwybodaeth o arolygon a pholisïau cenedlaethol.[5] Er bod y cynllun yn cael ei adolygu’n flynyddol, nid oes unrhyw dystiolaeth bod yr Ymddiriedolaeth wedi paratoi cynllun wedi’i ddiweddaru ar gyfer 2025-26.

38 Mae’r cynllun ar gyfer 2024-25 yn nodi pa grwpiau sy’n wynebu’r risg fwyaf o allgau digidol ac yn ystyried heriau ehangach, megis costau byw cynyddol a’r “ddeddf gofal gwrthgyfartal ddigidol”.[6] Er bod yr Ymddiriedolaeth yn deall y materion hyn yn dda, byddai’r cynllun yn gryfach pe bai’n cynnwys camau gweithredu mwy penodol â ffocws mwy pendant i fesur cynnydd. Ar ben hynny, nid oes tystiolaeth bod y Bwrdd na’i bwyllgorau’n cael sicrwydd ynghylch cyflawni’r Cynllun Cynhwysiant Digidol. Fodd bynnag, mae achosion busnes yr Ymddiriedolaeth yn dangos bod asesiadau o’r effaith ar ansawdd a chydraddoldeb yn cael eu cwblhau i sicrhau bod trawsnewid digidol yn deg ac yn hygyrch i bawb.

## Gweithio mewn partneriaeth

39 Mae gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol yn rhan bwysig o Strategaeth Ddigidol yr Ymddiriedolaeth. Mae’r Bwrdd yn cael diweddariadau am gynnydd y partneriaethau hyn trwy’r Pwyllgor Datblygu Strategol. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o fforymau megis cyfarfodydd gweithredol, grwpiau prosiect cenedlaethol, a Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Digidol.

---

[5] Mae’r Siarter Cynhwysiant Digidol yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo sefydliadau yng Nghymru sy’n fodlon hybu sgiliau digidol sylfaenol a helpu pobl i fynd ar-lein.

[6] Mae’r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal Ddigidol yn cyfeirio at sefyllfa lle y bo’n wir mai’r bobl ac arnynt fwyaf angen gwasanaethau digidol newydd yw’r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu gadael ar ôl oherwydd y diffyg sgiliau a mynediad digidol angenrheidiol.

40 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio gyda sefydliadau y tu allan i GIG Cymru i ddod o hyd i ffyrdd newydd o arloesi ac aros gyfuwch â newidiadau yn y byd digidol. Mae'r dull hwn yn cynnwys dysgu gwersi gan sefydliadau yn y sector preifat megis Amazon ac AToS.[7] Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r dystiolaeth yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Datblygu Strategol i ddangos effaith yr ymgysylltiadau hyn i rannu gwersi.

41 Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydweithio'n agos gyda'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, megis Cymunedau Digidol Cymru, Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ac AaGIC. Mae'r partneriaethau hyn wedi helpu i ddatblygu sgiliau staff i wella dyluniad gwasanaethau. Er enghraifft, bu'r Ymddiriedolaeth yn cydweithio gyda Chanolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru i redeg cyrsiau hyfforddi ar y cyd ar ddulliau dylunio gwasanaethau i sicrhau bod staff wedi'u harfogi i ddylunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ac sy'n ategu trawsnewid digidol cyson o ansawdd da.

[7] Cwmni sydd ar flaen y gad yn fyd-eang ym maes trawsnewid digidol yw AToS, ac yntau'n arbenigo mewn gwasanaethau TG, ymgynghori, cwmwl, seiberddiogelwch, a chyfrifiadura perfformiad uchel.

# Defnyddio datblygiadau digidol i ategu trawsnewid digidol

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwrw ymlaen â datrysiadau digidol ond mae angen iddi gynyddu buddsoddiad a chryfhau gweithgarwch gwerthuso i sicrhau bod blaenoriaethau digidol yn cyflawni'r canlyniadau bwriadedig

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

42 Nid yw'r Strategaeth Ddigidol yn nodi cynlluniau buddsoddi manwl ar gyfer y tymor byr, canolig na hir. Yn hytrach, caiff y blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer y tymor byr a chanolig eu nodi yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi pryderon pa un a oes ganddi ddigon o adnoddau i gyflawni ei holl gynlluniau digidol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig, yn rhannol oherwydd gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd wrth daro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau lleol a rhaglenni cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cydnabod bod angen iddi wella ei dull o werthuso cost a manteision buddsoddi digidol i gryfhau ei dull cynllunio ariannol a dyrannu adnoddau.

43 Mae **Arddangosion 1 a 2** yn dangos bod buddsoddiad digidol yr Ymddiriedolaeth ar y cyfan wedi cynyddu'n raddol i oddeutu £10 miliwn y flwyddyn, yn bennaf oherwydd costau refeniw cynyddol. Mae cyllid cyfalaf yn llawer mwy anrhagweladwy, gyda gostyngiad amlwg yn 2026-27 oherwydd y cynnydd sylweddol mewn gwariant refeniw a oedd yn gysylltiedig â symud gwasanaethau i blatfformau yn y cwmwl. Er bod y buddsoddiad cynyddol yn dangos ymrwymiad i foderneiddio digidol, mae'r anghydbwysedd rhwng cyfalaf a refeniw, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch buddsoddi hirdymor, yn creu risgiau ar gyfer gwireddu uchelgeisiau digidol yr Ymddiriedolaeth.

**Arddangosyn 1: Buddsoddi cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (rhwng 2021–22 a 2024–25)**

| Blwyddyn Ariannol | Cyfalaf (£'000oedd) | Refeniw (£'000oedd) |
|---|---:|---:|
| 2021-22 | £2,202 | £3,998 |
| 2022-23 | £3,825 | £3,916 |
| 2023-24 | £2,522 | £5,089 |
| 2024-25 | £3,656 | £6,443 |

**Arddangosyn 2: Lefelau arfaethedig buddsoddi cyfalaf a refeniw mewn digidol (rhwng 2025-26 a 2027–28)**

| Blwyddyn Ariannol | Cyfalaf (£'000oedd) | Refeniw (£'000oedd) |
|---|---:|---:|
| 2025-26 | £2,473 | £8,160 |
| 2026-27 | £722 | £8,997 |
| 2027-28 | £2,611 | £8,107 |

## Prosiectau digidol lleol a rhanbarthol

44 Mae'r Ymddiriedolaeth yn archwilio uwch dechnolegau i wella a moderneiddio ei gwasanaethau. Er enghraifft, mae clinigwyr yn defnyddio AI wrth gynllunio triniaethau radiotherapi i roi cymorth i wneud penderfyniadau a gwella deilliannau cleifion. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi Microsoft Copilot i fwy na 200 o aelodau o staff hefyd i awtomeiddio tasgau rheolaidd, fel bod ganddynt fwy o amser i ganolbwyntio ar waith pwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn defnyddio awtomeiddio prosesau robotaidd mewn meysydd cefn swyddfa megis cyllid i leihau gwaith â llaw a chynyddu cynhyrchiant.

45 Mae prosiectau digidol, boed yn rhai rhanbarthol neu genedlaethol, yn cael eu rheoli trwy dair prif raglen – Dyfodol Felindre, Dyfodol Gwasanaeth Gwaed Cymru, a Chanolfan Ganser newydd Felindre. Y Bwrdd Rhaglenni Digidol sy'n ymdrin â blaenoriaethu ar y cyfan, a hynny gan ddefnyddio dull MoSCoW i roi prosiectau mewn trefn restrol yn seiliedig ar faint allent wella mynediad, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant.[8] Mae hyn yn rhoi ffordd strwythuredig i'r Ymddiriedolaeth benderfynu pa brosiectau sydd o'r pwys mwyaf.

46 Mae prosiectau a argymhellir yn mynd gerbron y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Datblygu Strategol i gael eu hadolygu cyn cael eu hychwanegu at y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r Ymddiriedolaeth gael tystiolaeth fwy eglur o sut y mae'r penderfyniadau hyn yn cynyddu manteision i'r eithaf ac yn ymdrin â risg sefydliadol, i roi mwy o hyder bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

47 Mae gan yr holl brosiectau digidol yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig linellau amser a cherrig milltir eglur. Mae cynnydd yn cael ei fonitro gan ddefnyddio adroddiadau ar y prif bwyntiau a dangosfyrddau sy'n cynnwys mesurau perfformiad manwl. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut y mae buddsoddiadau digidol yn gwella llwybrau gofal ac yn gwneud gwasanaethau'n fwy effeithlon.

48 I roi cymorth i gyflawni, mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n barhaus yn gwella ei phrosesau a'i threfniadau llywodraethu. Mae wedi sefydlu Bwrdd Cynghori ar Newid ac Awdurdod Dylunio Digidol yn ddiweddar. Mae'r grwpiau hyn yn rheoli ceisiadau newydd ac yn gwneud yn siŵr bod cynhyrchion a gwasanaethau digidol yn cael eu cyflwyno'n iawn. Maent hefyd yn helpu i sicrhau bod newidiadau a mentrau newydd yn cyd-fynd â nodau strategol yr Ymddiriedolaeth.

[8] Techneg ar gyfer blaenoriaethu prosiectau digidol yw'r dull MoSCoW, lle mae'r acronym yn golygu 'Must have', 'Should have', 'Could have', a 'Won't have'.

## Mabwysiadu systemau digidol cenedlaethol

49 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i ddefnyddio nifer o systemau cenedlaethol i ategu nodau cenedlaethol, megis y System Gwybodeg ar gyfer Radioleg, y System Rheoli Gwybodaeth Labordai, ac ePMA. Mae mabwysiadu'r Cofnod Iechyd Electronig a'r Ystorfa Ddata Genedlaethol yn flaenoriaethau pwysig hefyd. Dengys hyn fod yr Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaethau digidol cenedlaethol. Fodd bynnag, mae wedi mynegi pryderon ynghylch ei hadnoddau a chapasiti cyfyngedig i roi cymorth i gyflawni rhaglenni digidol cenedlaethol a'r effaith gysylltiedig ar gyflawni prosiectau digidol lleol. Mae'r heriau hyn yn ei gwneud hi'n anos i'r Ymddiriedolaeth gynllunio'n hyderus ac yn cynyddu'r risg o oedi gyda'i thrawsnewid digidol.

## Gwerthuso datrysiadau digidol

50 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ffordd safonol o werthuso ei datrysiadau digidol eto. Er ei bod yn ceisio adnabod manteision yn ystod y cyfnod cynllunio, gallai'r Ymddiriedolaeth wneud mwy i dracio a mesur y manteision hyn trwy gydol y prosiect cyfan. Mae bylchau mewn prosesau gwerthuso a sicrwydd yn creu risgiau a allai atal yr Ymddiriedolaeth rhag cyflawni manteision llawn trawsnewid digidol.

51 Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i fesur pa mor fodlon yw defnyddwyr ar ei gwasanaethau digidol, felly mae'n anodd deall yn llawn sut y mae prosiectau digidol yn effeithio ar waith pob dydd ac ansawdd gwasanaethau. Mae'r ddesg wasanaeth TG yn cyrraedd ei thargedau ac mae ganddi sgôr boddhad defnyddwyr uchel o 96%. Ond mae hyn yn bennaf yn dangos sut y mae staff yn teimlo am y cymorth y maent yn ei gael ar y pryd, yn hytrach na sut y maent yn teimlo am y systemau digidol ehangach y maent yn eu defnyddio. O ganlyniad, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o fewnwelediad i ba mor dda y mae offer digidol newydd yn cael eu defnyddio, pa un a ydynt yn gwella gwaith a deilliannau, neu ble y mae angen gwelliannau pellach ar draws gwasanaethau.

# Argymhellion

52 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r argymhellion sy'n codi o'n gwaith.

**A1** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r modd y mae'n goruchwylio ac yn monitro risgiau yn y seilwaith digidol trwy gyflwyno dull mwy strwythuredig o dracio ac adrodd ar gynnydd yn erbyn camau lliniaru (gweler **paragraff 20**).

**A2** Dylai'r Ymddiriedolaeth wella goruchwyliaeth ar seiberddiogelwch trwy:

**A2.1** cynyddu mynychder ac amseroldeb cyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau seiber a rhybuddion i'r pwyllgor perthnasol;
**A2.2** darparu swyddogaethau craffu a goruchwylio cryfach ar faterion seiber; ac
**A2.3** diwygio trefniadau adrodd ar gydymffurfio â'r Fframwaith Asesu Seiber (gweler **paragraffau 22 a 23**).

**A3** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau sy'n ymwneud â defnydd y sefydliad o Ddeallusrwydd Artiffisial (gweler **paragraff 29**).

**A4** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ddeall a datblygu sgiliau digidol yn y gweithlu trwy:

**A4.1** cynyddu cyfranogiad yn hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol AaGIC;
**A4.2** creu cynllun eglur ar gyfer mesur hyder digidol a monitro cynnydd dros amser; ac
**A4.3** asesu galluoedd digidol technegol o fewn y tîm digidol craidd (gweler **paragraff 30**).

**A5** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer buddsoddi mewn digidol trwy greu cynllun ariannol cynhwysfawr, graddol sy'n nodi'n glir beth yw'r anghenion buddsoddi tymor byr, canolig a hir (gweler **paragraff 42**).

**A6** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o werthuso datrysiadau digidol trwy ddatblygu fframwaith gwerthuso safonedig, cryfhau prosesau tracio manteision, a gweithredu mesur boddhad defnyddwyr fel rhan o'r drefn arferol (gweler **paragraffau 50 a 51**).

# Atodiadau

# 1 Ymateb y Rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r modd y mae'n goruchwylio ac yn monitro risgiau yn y seilwaith digidol trwy gyflwyno dull mwy strwythuredig o dracio ac adrodd ar gynnydd yn erbyn camau lliniaru (gweler **paragraff 20**). | Mae risgiau yn y seilwaith, megis y rhai a amlygir yn yr adroddiad, yn cael eu rheoli trwy ddull rheoli risg yr Ymddiriedolaeth. O ystyried cyfyngiadau ariannol y GIG, mae datrys risgiau yn y seilwaith yn weithgaredd parhaus yn y tymor canolig/hir. Mae adnodd cyfalaf ar gael yn fwy cyffredinol ar gyfer yr eitemau hyn ym mhob Ch4 ac mae'r Ymddiriedolaeth yn cadw rhestr wedi'i blaenoriaethu o fuddsoddiadau cyfalaf Digidol sydd ar gael at y diben hwn. Un o'r prif flaenoriaethau â ffocws eleni fu symud o Windows 10 i Windows 11.<br><br>Bydd adolygiad o'r risgiau yn Seilwaith Digidol yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gynnal i sicrhau bod camau gweithredu ar gyfer lliniaru'n cael eu cryfhau, gan gynnwys **graddfeydd amser ar gyfer cyflawni ac** unrhyw oblygiadau o ran | Gorffennaf 2026 | Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | costau. Bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rhaglenni Digidol. | | |
| **A2** | Dylai'r Ymddiriedolaeth wella goruchwyliaeth ar seiberddiogelwch trwy:<br><br>**A2.1** cynyddu mynychder ac amseroldeb cyflwyno adroddiadau am ddigwyddiadau seiber a rhybuddion i'r pwyllgor perthnasol;<br><br>**A2.2** darparu swyddogaethau craffu a goruchwylio cryfach ar faterion seiber; ac<br><br>**A2.3** diwygio trefniadau adrodd ar gydymffurfio â'r Fframwaith Asesu | **A2.1** Yn dilyn adolygiad y Bwrdd mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad wedi cytuno i gael adroddiadau Seiberddiogelwch yn chwarterol, yn hytrach nag yn Flynyddol. Mae strwythurau pwyllgorau ar y cyfan wrthi'n cael eu hadolygu.<br><br>**A2.2** Bydd cyflwyno adroddiadau ar faterion Seiber yn chwarterol yn galluogi craffu a goruchwylio ychwanegol i ddigwydd. | A2.1 Mehefin 2026<br><br>A2.2 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio a Digidol<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, Cynllunio a Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Seiber (gweler **paragraffau 22 a 23**). | **A2.3** Mae'r sgôr ar y cyfan dan y Fframwaith Asesu Seiber yn cael ei gydgyfuno ar hyn o bryd mewn un Dangosydd Perfformiad Allweddol ar y cyfan ar gyfer cydymffurfio a gyflwynir yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad. Mae'r lefelau cydymffurfio sylfaenol mewn meysydd unigol ar gael trwy adroddiadau i'r Uned Seibergadernid a byddant yn cael sylw mwy penodol yn yr adroddiadau chwarterol i'r pwyllgor. Lle defnyddir y sgôr Dangosydd Perfformiad Allweddol wedi'i gydgrynhoi byddwn yn glir ynghylch cyfyngiadau'r dull. | A2.3 Mehefin 2026 | Prif Swyddog Digidol |
| **A3** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau ar gyfer adnabod a rheoli risgiau sy'n ymwneud â defnydd y sefydliad o | Ers y gwaith maes ar gyfer yr Archwiliad o Drawsnewid Digidol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo Polisi AI yr Ymddiriedolaeth, sy'n cynnwys | Mawrth 2026 | Prif Swyddog Digidol / SIRO |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | Ddeallusrwydd Artiffisial (gweler **paragraff 29**). | rheoli risg AI. Roedd hwn wrthi'n cael ei ddatblygu ar adeg yr archwiliad.<br><br>Mae mentrau AI yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r polisi Rheoli Risg ar y cyfan ar gyfer yr Ymddiriedolaeth, ac mae'r polisi AI bellach yn darparu arweiniad eglur ar gyfer sut y dylid trin y risgiau hyn.<br><br>Bydd adolygiad risg penodol mewn perthynas ag AI yn cael ei gynnal i sicrhau'r Bwrdd bod risgiau o ran AI yn cyd-fynd â'r Polisi AI. | Awst 2026 | Prif Swyddog Digidol / SIRO |
| **A4** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ddeall a datblygu sgiliau digidol yn y gweithlu trwy: | **A4.1** Bydd cynllun cyfathrebu ar gyfer ymgysylltu â'r Fframwaith Gallu Digidol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio wedyn i gynllunio datblygiad gwasanaethau gan ddefnyddio'r | Medi 2026 | Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | **A4.1** cynyddu cyfranogiad yn hunanasesiad Fframwaith Gallu Digidol AaGIC;<br><br>**A4.2** creu cynllun eglur ar gyfer mesur hyder digidol a monitro cynnydd dros amser; ac<br><br>**A4.3** asesu galluoedd digidol technegol o fewn y tîm digidol craidd (gweler **paragraff 30**). | canfyddiad trwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a mentrau gwella byrdymor.<br><br>**A4.2** Bydd y Cynllun Cynhwysiant Digidol (sef mecanwaith yr Ymddiriedolaeth ar gyfer gwella hyder digidol a'r gefnogaeth ar gyfer Ardystiad Cynhwysiant Digidol yr Ymddiriedolaeth) yn cael ei adolygu/ei ddiweddaru a'i gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol/Pwyllgorau'r Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys diweddariad ar y mesurau a fydd yn cael eu defnyddio ar Hyder Digidol (e.e. Asesiad Gallu Digidol AaGIC).<br><br>**A4.3** Ers y gwaith maes ar gyfer yr Archwiliad o Drawsnewid Digidol, fe gychwynnodd yr Ymddiriedolaeth Offeryn Diagnostig Digidol gan ddefnyddio partner allanol profiadol. Wedi'i gynnwys yn hyn mae adolygiad o alluoedd a chapasiti technegol y tîm Digidol canolog. Bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i'r | Hydref 2026<br><br>Gorffennaf 2026 | Prif Swyddog Digidol<br><br>Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | | Bwrdd Rheoli Gweithredol/Pwyllgor Datblygu Strategol ar gyfer cymeradwyo. | | |
| **A5** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau'r modd y mae'n cynllunio ar gyfer buddsoddi mewn digidol trwy greu cynllun ariannol cynhwysfawr, graddol sy'n nodi'n glir beth yw'r anghenion buddsoddi tymor byr, canolig a hir (gweler **paragraff 42**). | Ers y gwaith maes ar gyfer yr Archwiliad o Drawsnewid Digidol, fe gychwynnodd yr Ymddiriedolaeth Offeryn Diagnostig Digidol gan ddefnyddio partner allanol profiadol. Wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn mae opsiynau ar gyfer buddsoddiad tymor byr, canolig a hir yn y tîm Digidol canolog i feithrin y gallu a'r capasiti i ateb gofynion y cynllun. Bydd yr offeryn diagnostig yn nodi'r buddsoddiad sy'n ofynnol.<br><br>Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn nodi'r ffactorau galluogi Digidol sy'n ofynnol i gyflawni'r cynllun tymor canolig ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'r gofynion cyllido. Bydd gofynion trawsnewid digidol | Gorffennaf 2026<br><br>Ebrill 2026 ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Tymor Canolig Integredig | Prif Swyddog Digidol<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid, |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | yn dal i gael eu hateb trwy Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru gan gydnabod bod goralw am gyllid o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol ac felly na fydd yr holl achosion buddsoddi'n cael eu cymeradwyo ac mai dim ond fesul blwyddyn y mae buddsoddiad cyfalaf ar gael.<br>Bydd adolygiad o'r buddsoddiad digidol hirdymor yn cael ei gwblhau ochr yn ochr â'r adolygiad nesaf o strategaeth Ddigidol yr Ymddiriedolaeth a bydd adroddiad arno'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Rheoli Gweithredol/Pwyllgor Datblygu Strategol | Hydref 2026 | Cynllunio a Digidol<br>Prif Swyddog Digidol |
| **A6** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o werthuso datrysiadau digidol trwy ddatblygu fframwaith gwerthuso safonedig, cryfhau | Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithredu dull Portffolio ar y cyfan, gan gynnwys y gwerthusiad o fanteision sy'n deillio o weithgareddau Portffolio, yn bennaf ar | Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Lleoedd, Partneriaethau a Phortffolio |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | prosesau tracio manteision, a gweithredu mesur boddhad defnyddwyr fel rhan o'r drefn arferol (gweler **paragraffau 50 a 51**). | lefelau mwyaf strategol Haen 1 a 2. Mae trawsnewid digidol wedi'i gynnwys yng nghwmpas y portffolio.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfrannu at ddull y Fframwaith Manteision Cenedlaethol ar gyfer Digidol trwy Grŵp Manteision Cymru Gyfan IGDC. Mae digidol bellach wedi mabwysiadu'r fframwaith yn ein Rhaglenni Digidol (e.e. EPMA, WHAIS). Mae adolygiadau o wireddu manteision yn cael eu cynnal yn unol â'r achos busnes. Bydd adroddiadau mwy penodol ar y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rhaglenni Digidol. Mae ystorfa sy'n cynnwys y manteision a gwersi a ddysgwyd bellach wedi cael ei chreu. | Medi 2026 | Prif Swyddog Digidol |
| | | Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Halo ITSM ar gyfer adborth ac i fesur boddhad defnyddwyr gyda Gwasanaethau Digidol, sy'n ymwneud yn bennaf â | Medi 2026 | Prif Swyddog Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | rhyngweithiadau trafodiadol (digwyddiadau a cheisiadau digidol) ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei estyn i gynnwys mesur ehangach o'r gwasanaeth Digidol ar y cyfan i'w gyflwyno trwy'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. | | |

# 2 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei gweithlu?
- A oes gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gynllun eglur ar gyfer rheoli ei threfniadau seibergadernid a'i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei huchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn ymgysylltu'n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei huchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i'r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre wrthi'n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei gwasanaethau?

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- Fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.
- Strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.
- Adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin.
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care; a hefyd.
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

# Dulliau

Fe ofynnom ni i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre:

- gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol; a
- rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Adroddiadau ar y Prif Bwyntiau ym maes Digidol ac Adroddiadau Blynyddol Digidol.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol, y Strategaeth Pobl, Strategaeth yr Ymddiriedolaeth a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â’r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Prif Weithredwr
- Prif Swyddog Digidol
- Prif Swyddog Gweithredu
- Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Strategol, Cynllunio a Digidol a’r Dirprwy Brif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Cyllid

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad
- Y Pwyllgor Datblygu Strategol

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.